# LC1500

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer gwneud taliadau drwy gyfrwng system dalebau o ran costau a dynnir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â chyflenwi, ailosod a thrwsio teclynnau optegol. Mae'r diwygiadau yn cynyddu gwerth y talebau hynny tua 2.7%.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn y testun Saesneg, y pwerau a enwir i wneud y Rheoliadau hyn yw adran 129 a 203(9) a(10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Yn y testun Cymraeg nid yw adran 203(10) wedi'i chynnwys. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wall drafftio neu deipograffyddol yw hwn sy'n addas i'w gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae'r rheoliadau hyn yn dibynnu ar y pwerau yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ond dim ond ailddeddfu'r pwerau sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth gynharach y

mae’r pwerau hynny’n ei wneud ac sydd bellach wedi’u cydgrynhoi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mawrth 2007